**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

27 Gorffennaf 2022

Annwyl Weinidog,

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Drefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 22 Mehefin, ynghyd â'ch cyd-Aelodau yn y cabinet, sef Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, a Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, i roi tystiolaeth mewn perthynas â'n hymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE.

Fel y gwyddoch, ar 30 Mehefin, fe wnaeth Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, a David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, roi tystiolaeth ar ran Llywodraeth y DU.

Fel rhan o'n cylch gorcwyl, fe wnaethom ni ystyried y modd y mae'r cyllid arfaethedig ar gyfer Cymru a'r cyllid a gafwyd yn sgil cyfranogiad parhaus y DU yn rhaglenni'r UE yn cymharu â'r cyllid a gafwyd tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, fe wnaeth Llywodraeth Cymru feintioli gwerth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) fel £295 miliwn. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn darparu swm cyfatebol i gronfeydd yr UE, yn benodol yr ESF ac ERDF, drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn cyfateb yn fras i gyfrifiadau Llywodraeth y DU o'r cyllid blynyddol cyfartalog enwol i Gymru drwy'r cronfeydd hynny - sef £291 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, y gwahaniaeth barn allweddol rhwng Llywodraeth Cymru a

Llywodraeth y DU yw sut mae’r cyllid newydd yn cyfrif am sut mae cyllid yr UE sy’n weddill yn dirwyn i ben.

Bydd yn anodd i’r Pwyllgor ddod i gasgliad ynghylch a yw Cymru i fod i gael mwy/llai/yr un cyllid drwy’r cronfeydd sy’n disodli rhai’r UE nag yr oedd pan oedd y DU yn aelod o’r UE, o ystyried nad yw’n ymddangos bod y ddwy lywodraeth yn ystyried y cyllid yn yr un modd. Mae’r Pwyllgor hefyd yn ansicr ynghylch lefel y cyllid ar gyfer blynyddoedd ar ôl yr SPF, a fydd yn berthnasol i ganfod a yw cyllid wedi’i gynnal.

Rydym yn gobeithio cyflwyno adroddiad yn gynnar yn nhymor yr hydref. Fodd bynnag, rwy’n ysgrifennu atoch nawr gan yr hoffai’r Pwyllgor ichi godi eitem ar yr agenda yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid nesaf sydd i’w gynnal ym mis Medi, cyn cwblhau ein hadroddiad.

Byddwn yn gwneud argymhelliad yn ein hadroddiad sy’n awgrymu y dylai corff annibynnol fel y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) asesu’r ddau hawliad ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol a sut mae hyn yn cymharu â chyllid blaenorol. Yna gall hyn lywio dull safonol o gyfrifo cronfeydd yn y dyfodol, fel y bydd pob llywodraeth yn y DU yn defnyddio'r un fethodoleg.

Credwn y byddai’n briodol i’r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ystyried sut i fwrw ymlaen â hyn a byddem yn ddiolchgar pe gallech awgrymu’r mater hwn fel eitem ar yr agenda i’w thrafod yn cyfarfod nesaf ac adrodd yn ôl inni maes o law.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.